

**Cyngor Cymuned Llanpumsaint**  
**Nodiadau Cyfarfod: 06.03.2018**  
**Neuadd Goffa 8.00 y.h**

Presennol: Y Cynghorwyr ; Arwel Nicholas, Gethin Edwards, Eirion Evans, Dylan Jones, Derick Lock, Pamela Jones, Danny Davies.

Ymddiheuriadau: Elfed Davies, Cyngorydd Sir, Irfon Jones

Rhif Agenda	Nodiadau/ Penderfyniadau	I'w weithredu gan
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Cytunwyd bod y Cofnodion yn gywir – <b>GE &amp; DL</b>	
Materion yn Codi	<b>J McEvoy</b> – angen gofyn am data o'r monitor a fu yn cyfrif a mesur trafndiaeth heibio I Banteg <b>J Pearce</b> – er fod clawdd y Deri wedi ei docio, nid yw yr hyn sydd wedi ei wneud yn ddigonol ac felly yn annerbyniol. Dim gwaith wedi ei wneud ar glawdd y Felin; angen cael trafodaeth gyda J Pearce ynglyn a beth yw'r camau nesaf I gymeryd.	
Gohebiaeth	<b>Treth y Cyngor yn codi 4.45%</b> - y Cynghorwyr yn anfodlon iawn ynglyn a hyn oherwydd y cyflogau afresymol a delir I Uwch Swyddogion Cabinet Cyngor Sir Gâr. Gwnaethpwyd cymhariaethau a CARILLION, y cwmni adeiladu a aeth I'r gwellt oherwydd y cyflogau mawr a dalwyd I'r Cyfarwyddwyr. Rhestrwyd achosion lle nad oes gwariant digonol megis y priffyrdd a'r addewid y byddai yr heol o Banc yFfordd I Llanpumsaint yn cael graean a halen ond hyd at heddiw, nid yw wedi digwydd. Clerc I wneud cwyn ynglyn a dyrchafiad cyflog Mr Mark James.	
Cynllunio	<b>Penrhiw Fach</b> , adeilad amaethyddol aml bwrpas – Dim gwrthwynebiad. Holwyd ynglyn a'r garafan sydd ar y safle ac a oedd hawl cynllunio I'w adael yno. Clerc I ofyn am eglurhad oddi wrth Cyngorydd Irfon Jones ynglyn a'r sefyllfa.	
Materion Ariannol	<b>Trywydd</b> , cyfieithu, £54.00 -cytunwyd ei dalu <b>DJ &amp; EE</b> <b>Cyflog Clerc</b> , £130.60 – Cytunwyd ei dalu, <b>AN &amp; DJ</b> <b>Un Llais Cymru</b> , £94.00 – Cytunwyd ei dalu <b>AN &amp; GE</b>	
UFA	<b>DL</b> – Dim <b>DJ</b> – angen graean a halen ar dro Pant y Driw a Rhiw Deri. <b>EE</b> – Dim <b>DD</b> – angen graean/halen ar Rhiw Maenllwyd <b>GE</b> – Dim <b>AN</b> – Dim <b>PJ</b> – Nant yr Ynys – nid oes blwch halen ar Nant yr Ynys; cafwyd trafferthion yno yn ystod y tywydd garw ac nid oedd graean ar yr ystad nac ychwaith gerllaw bont y rheilffordd.	

Cyfarfod yn gorffen	9.15	

Cafwyd yn gywir : ..... (Cadeirydd)	Cafwyd yn gywir : ..... (Ysgrifennydd)
Dyddiad : .....	Dyddiad: .....